OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 826 (Cy.114)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Swyddogion Awdurdodedig (Archwilio Cig) (Dirymu) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*13 Mawrth 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*15 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 5(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Swyddogion Awdurdodedig (Archwilio Cig) (Dirymu) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2012.

Dirymu

2. Mae Rheoliadau Swyddogion Awdurdodedig (Archwilio Cig) 1987(**4**) wedi eu dirymu o ran Cymru.

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a throsglwyddwyd hwy wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC o ran y weithdrefn reoleiddio ynghyd â chraffu: Addasu at y weithdrefn reoleiddio ynghyd â chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t.14).

(**4**) O.S. 1987/133, a ddiwygiwyd gan O.S. 1990/2486.